Papur Bro Abertawe

WILIA

RHIFYN 465 MAI/MEHEFIN 2024 | AM DDIM

GŴYR YN DERBYN STATWS 'YSGOL NODDFA'

- RHODRI EVANS, YSGOL GYFUN GŴYR

Pleser mawr yw gallu cyhoeddi heddiw fod Ysgol Gyfun Gwyr wedi derbyn statws "Ysgol Noddfa" fel rhan o'r cynllun "Abertawe fel Dinas Noddfa".

Yn 2021, dechreuodd yr ysgol ar ei siwrnai i fod yn Ysgol Noddfa. O dan arweinyddiaeth yr Adran Ddyniaethau, braf oedd gweld yr adran honno'n derbyn gwobr "Adran Noddfa" ym Mehefin 2022. Ers hynny, rydym wedi bod yn adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd gan hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant, goddefgarwch a chyfeillgarwch at bawb. Fel Ysgol Noddfa, rydym yn ymrwymedig i fod yn ganolfan sy'n ddiogel a chroesawgar i bawb, yn enwedig i'r rheiny sy'n ceisio lloches.

Ein nod yw annog ein dysgwyr, staff a'r gymuned ehangach i ddeall beth a olygir wrth 'ysgol noddfa' ac yna i gynnig llaw cyfeillgarwch er mwyn croesawu pawb fel aelodau cyfartal a gwerthfawr i gymuned ein hysgol.

Fel Ysgol Noddfa, rydym yn ymrwymedig i

- Greu diwylliant i groeso i bawb, yn enwedig i ffoaduriaid, ceiswyr lloches ac eraill sy'n ceisio noddfa.
- Hyrwyddo llais a chyfraniadau'r rheiny sydd naill ai wedi ceisio lloches neu wedi derbyn lloches, yn ein cymdeithas.
- Gynyddu dealltwriaeth cymuned yr ysgol o brofiadau mudwyr a cheisio herio'r stereoteipiau sy'n gysylltiedig i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Fel ysgol, ymfalchïwn ein bod yn ganolfan ddiogel a chynhwysol i bawb ac mae'r wobr hon yn cydnabod gwerthoedd craidd yr ysgol sef "Gorau byd, Cyd-fyw."

URDDO JOHN THOMAS A CATRIN ROWLANDS

Bydd dau berson cyfarwydd iawn i ni yn Abertawe yn derbyn anrhydeddau'r Orsedd yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf eleni.

Bydd John Thomas yn derbyn Urdd Derwydd - Y Wisg Las am ei wasanaeth i'r genedl. Dyma wybodaeth yr Eisteddfod amdano:

Barnwr Cyflogaeth yw John Thomas, Abertawe, yn ôl ei broffesiwn. Pan ddaeth Deddf yr Iaith Gymraeg i rym yn 1993, bu'n flaengar wrth sicrhau bod y broses weinyddol yn ddichonadwy cyn y gellid cyflwyno cais gerbron y barnwr, trwy sicrhau bod digon o weision sifil yn medru'r Gymraeg. Y canlyniad oedd trefnu rhyddhau staff i gael gwersi Cymraeg yn y gweithle – syniad cwbl arloesol ar y pryd. John, ynghyd a thri gŵr lleol arall, a gafodd y weledigaeth a arweiniodd at sefydlu canolfan Gymraeg Tŷ Tawe yn ninas Abertawe, a John ei hun yn gyfrifol am godi llawer o'r cyllid er mwyn gwireddu hynny. Dyma ddyn a weithiodd yn ddygn o blaid y Gymraeg yn lleol.

Bydd Catrin Rowlands yn cael ei hurddo i'r Wisg Werdd am ei chyfraniad i'r Celfyddydau. Dyma'r hyn y mae'r Eisteddfod yn ei ddweud amdani:

Athrawes Gymraeg yn Ysgol Llanhari yw Catrin Rowlands, Abertawe, ac yn ddi-os, bydd ei chreadigrwydd a'i hymroddiad i waith pwyllgorau lleol yr Eisteddfod i'w gweld yn glir ar y Maes ym Mhontypridd eleni. Mae hi wedi cynnwys ei disgyblion yn y paratoadau ar hyd y daith gan sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer y Gadair, gyda'i hawydd i ddod â'r Gymraeg yn fyw i bobl ifanc yn glir i bawb. Mae hefyd yn weithgar yn ei chynefin fel aelod o Dŷ Tawe, canolfan Gymraeg dinas Abertawe, ac mae wedi cynnig gwersi Cymraeg yn wirfoddol i ddosbarthiadau o oedolion yn eu cymuned yn Nhreforys.

PWYLLGOR APÊL SGETI, UPLANDS, TYCOCH, BRYNMILL A DERWEN FAWR

-ANGHARAD BROWN

Dyma lun o rai o'r criw ddaeth ynghyd i fwynhau cyri ym mwyty Panshee nos Iau, 26ain Ebrill, sef y digwyddiad cyntaf i godi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025. Y bwriad yw cynnal nifer o ddigwyddiadau hwyliog dros y flwyddyn nesaf. Croeso i bawb ymuno â ni neu gefnogi mewn amrywiol ffyrdd - dilynwch ni ar Facebook neu gysylltwch drwy e-bost, urddpwyllgorapelsgeti@gmail.com

FIONA YN Y BRANGWYN

Fiona Gannon, arweinydd Capel y Nant, Clydach oedd organydd y mis yng nghyfres datganiadau organ Neuadd Brangwyn ar 7 Mai.
Daeth cynulleidfa dda i fwynhau rhaglen amrywiol, gan gynnwys rhai o'r cyfansoddiadau organ mwyaf adnabyddus.
Cafwyd datganiadau gloyw a phwerus o waith Buxtehude, Albinoni, Saint-Saëns, Karg-Elert, Massenet a Boëllmann.
Llun: Fiona ger organ y Brangwyn, gyda'i man, Llywelyn, a fu'n troi tudalennau.

IWAN GRIFFITHS YNG NGHYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH

-DAVID GWYN JOHN

Y gohebydd profiadol a'r cyflwynydd Iwan Griffiths oedd siaradwr gwadd y Gymdeithas yn Ebrill. Mae'n wyneb cyfarwydd ar S4C ar raglenni dogfen a newyddion S4C. Mae e hefyd i'w weld yn cyflwyno eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol. Daw o Aberteifi yn wreiddiol ac mae bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin gyda'i wraig Hanna a'u meibion Aneirin a Brynmor.
Soniodd am ei waith fel gohebydd yn arbennig y profiadau a gafodd wrth deithio i wledydd y byd adeg trychineb, argyfwng neu "stori fawr". Cyfeiriodd, yn benodol, at dri ohonynt gan fanylu ar y paratoi, yr anawsterau teithio a'r cyflwyno o'r maes: daeargrynfeydd Moroco, Syria a Thwrci, y gwrthdaro yn Gasa a marwolaeth y Frenhines. Mae gohebu a chyflwyno stori yn heriol pob tro. Pan fod si bod rhywbeth "mawr" wedi, neu yn, digwydd mae rhaid gadael y cyfan a symud yn gyflym i lygad y storm. Gadael cysur cartref, cymuned a theulu i ganol erchyllterau a thrawma rhyfel neu argyfwng.
Bu Iwan, yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cyflwyno gogwydd Cymreig i'r argyfyngau yma a braf yw cael clywed "llais" Cymro i'r storiâu mawr gan fod y cyfryngau Seisnig ac Americanaidd yn lliwio barn wahanol i ni. Dangosodd glipiau newyddion ohono yn ne Twrci yng nghanol treialon mwyaf enbyd dynoliaeth.
"Mi gyrhaeddon ni ddyfnderoedd isaf uffern yn oriau man bore Mercher. Dros y dyddiau canlynol fe wnaethon ni gyfarfod a degau o bobl ac oriel o wynebau sy'n portreadu un o'r trychinebau naturiol gwaethaf mewn canrif. Seirenau a chyrn yn canu. Mamau'n wylo wrth i beiriannau trwm gloddio trwy weddillion eu cartrefi. Mae hanner dwsin o dyrau tal yn bentyrrau o goncrit a dur ar lawr. Jac codi baw yn cario corff arall oddi ar y domen. Yna'r chwiban i bawb dawelu - sŵn gobaith wrth i dîm achub wrando'n astud am lais. Ac o fewn yr awr, roedd Edjrin yn rhydd. Wedi ei hachub, ac ym mreichiau kahraman."
Er iddo astudio Hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn deall meddylfryd Cymru, rhaid, fel newyddiadurwr da, fod yn ddiduedd. Mae'n cyfaddef bod cyflwyno hanes marwolaeth Elizabeth, y frenhines a choroni'r brenin newydd yn "anodd".
Cafwyd noson wirioneddol wych a gwerthfawrogodd y gynulleidfa niferus y cyflwyniad. Diolchwyd iddo gan y Parchg Eirian Wyn, y llywydd ac Aldyth Williams, yr is-lywydd.

STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG YN ABERTAWE

-HEINI GRUFFUDD, CADEIRYDD RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG ABERTAWE

Mae Cyngor Abertawe'n cynnal cyfarfodydd ganol Mai i ystyried dulliau o hyrwyddo'r Gymraeg yn y ddinas a'r sir. Mae RhAG wedi cyflwyno cyfres o syniadau i'w hystyried. Dyma'u sylwadau.

Strategaeth hybu'r Gymraeg yn Abertawe

1. Cynyddu niferoedd siaradwyr

Mae hwn yn faes allweddol. Cafwyd adeiladau newydd i sawl ysgol Gymraeg yn y blynyddoedd diwethaf, sydd i'w groesawu. Fodd bynnag, mae sawl ysgol, e.e. Bryn=y=môr, Llwynderw, Login Fach a Pontybrenin naill ai'n llawn neu'n agos at fod yn llawn. Yr un pryd mae rhannau o Abertawe heb ysgol Gymraeg, a disgyblion yn gorfod teithio. Mae cydberthyniad amlwg rhwng presenoldeb ysgol Gymraeg mewn ward a chanran plant wardiau sy'n derbyn addysg Gymraeg. Yr angen amlwg, sydd wedi'i dderbyn gan Abertawe, hyd y gwelaf, yw bod angen sefydlu rhagor o ysgolion Cymraeg er mwyn cyrraedd targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

1.1 Cylchoedd meithrin

- Sicrhau bod gan ysgolion Cymraeg ddosbarthiadau meithrin
- Hyrwyddo cylchoedd meithrin Cymraeg
- Cynnig gwersi Cymraeg i weithwyr cylchoedd meithrin

1.2 Ysgolion cynradd

- Sicrhau bod ysgol gynradd Gymraeg ym mhob cymuned
- Lle nad oes modd adeiladu ysgol newydd, aildrefnu ysgolion Saesneg i ryddhau un adeilad i fod yn ysgol Gymraeg
- Lle nad oes digon o ysgolion Saesneg i aildrefnu, ystyried rhannu safle rhwng ysgol Gymraeg ac ysgol Saesneg

Ardaloedd sy'n galw am sylw brys:

Dynfant – Cilâ

Pentre'r Ardd – Penllergaer Mae nifer fawr o dai newydd yn ardal Penllergaer, ac addewid am ysgol newydd. Mae angen i'r ysgol honno fod yn ysgol Gymraeg.

St Thomas – Danygraig

Townhill – Mayhill

1.3 Ysgolion uwchradd

- Dewis safle ar gyfer trydedd ysgol uwchradd Gymraeg

1.4 Oedolion

- cynnig rhaglen o ddysgu Cymraeg i weithwyr mewn sectorau cyhoeddus:

Ysgolion: cynorthwywyr, athrawon

Y Cyngor: gweithwyr sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd

1.5 Anghenion arbennig

Mae'r gwasanaeth i deuluoedd Cymraeg â phlant ag anghenion arbennig, neu i oedolion Cymraeg ag anghenion arbennig wedi bod yn ddiffygiol iawn. Dywedwyd wrthym gan un profiadol yn y maes yn Abertawe bod y sefyllfa yn 'erchyll' a sawl teulu wedi colli iaith yr aelwyd oherwydd hyn.

1.6 Trochi hwyr

Mae angen hysbysebu cynllun trochi hwyr y sir, a'r cyfle i blant drosglwyddo o ysgolion cyfrwng Saesneg i addysg Gymraeg fel 'hwyrddyfodiad/newydd-ddyfodwyr'.

2 Hyrwyddo addysg Gymraeg

Mae hi'n gallu bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth am fanteision addysg Gymraeg a manteision bod yn ddwyieithog. Byddai'n dda ymchwilio i gyfleoedd i roi sylw i hyn.

2.1 Cyswllt cynnar gyda darpar rieni, trwy'r gwasanaethau iechyd, dosbarthiadau i mamau beichiog. Parhau hyn gyda gofal i famau (a thadau) ar ôl geni. Gwnaed peth gwaith ar hyn ond byddai'n dda cryfhau'r neges.

2.2. Defnyddio'r wybodaeth i rieni i roi mwy o sylw i fanteision addysg Gymraeg a dwyieithrwydd. Mae'r ddogfen bresennol yn sôn am y Gymraeg unwaith ar dudalen 8 ac yna 13 i nodi bod newid dalgylchoedd ysgolion Cymraeg, ac eto ar dudalen 18. Mae hyn yn glwm wrth yr awgrym "Peidiwch â thybio eich bod mewn dalgylch oherwydd eich bod yn byw yn agos at ysgol."

Mae sôn am addysg Gymraeg ar dudalen 19, ond unwaith eto, mewn print trwm, yn nodi bod newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion Cymraeg. Nid yw hyn yn rhoi hyder i ddarpar rieni mewn addysg Gymraeg.

Yna ar dudalen 40 mae rhestr o 'ysgolion cyfun'. Does dim ysgol Gymraeg yn y rhestr yma, dim ond ysgolion Saesneg. Yna ceir nodyn am ysgol gyfun Gatholig, cyn nodi ysgolion cyfun Cymraeg.

Mae angen nodi 'ysgolion cyfun Saesneg' yn hytrach nag 'ysgolion cyfun'. Mae'r gwahaniaethu yn awgrymu bod ysgolion cyfun Cymraeg yn llai normal.

Ceir wedyn restro ysgolion cynradd. Unwaith eto, nodir 'ysgolion cynradd cymunedol' i ddechrau, heb nodi 'ysgolion cynradd cymunedol Saesneg. Mae'r ysgolion Cymraeg o dan y rhain. Er mwyn hybu addysg Gymraeg byddai'n dda rhestru'r ysgolion cynradd Cymraeg yn gyntaf.

Mae modd dadlau bod y ddogfen fel y mae yn anffafrio'r Gymraeg, sy'n groes i safonau statudol y Gymraeg.
Mae angen rhoi braslun amlwg am fanteision addysg Gymraeg yn y ddogfen.
2.3 Mae angen defnyddio'r we a chyfleodd digidol eraill i hyrwyddo addysg Gymraeg, i nodi manteision siarad yr iaith, manteision dwyieithrwydd mewn gwlad ddwyieithog
3. Cymreigio'r ddinas a'r sir
Mae'n aneglur ble mae modd defnyddio'r Gymraeg yn y ddinas. Yn aml mae modd dod o hyd i weithwyr Cymraeg mewn siopau a chaffis, ond nid yw hyn yn amlwg i bobl yn gyffredinol, a'r duedd yw defnyddio'r Saesneg yn gyntaf. Mae angen cynllun i geisio newid hyn.
3.1 Y stryd fawr:
Siopau, caffis, y farchnad ac ati: gosod arwydd ar ffenest y sefydliad i nodi bod modd defnyddio Cymraeg yno. Ategu hyn gyda bathodynnau /lanyards, sydd i'w cael gan Gomisiynydd y Gymraeg / trwy'r Fenter Iaith.
3.1 Digwyddiadau
Digwyddiadau i blant a phobl ifanc: sicrhau bod gwersi nofio, chwaraeon, clybiau ar gael yn y Gymraeg.
Cafwyd ymdrechion i ddefnyddio rhagor o'r Gymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus yn Abertawe. Gellir cryfhau hyn, e.e. digwyddiadau cerddorol ym mharc Singleton a'r Arena, gyda pherfformwyr Cymraeg.
Mae'r Fenter Iaith wedi cael llwyddiant mawr wrth drefnu digwyddiadau Cymraeg yn Nhŷ Tawe ar ar draws y ddinas. Byddai'n dda rhoi cefnogaeth bellach iddynt.
3.2 Annog sefydliadau
Byddai'n dda i'r Gymraeg fod yn iaith glywadwy, yn hytrach na gweladwy.
Byddai'n dda annog defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefydliadau.
Meysydd chwarae: cyhoeddiadau dwyieithog yn San Helen a stadiwm Swansea.com, Theatr y Grand a'r Arena e.e.
Annog siopau i ddefnyddio arwyddion Cymraeg / dwyieithog. Cymorth i gaffis i ddefnyddio bwydlenni dwyieithog.
3.3 Annog siarad Cymraeg
Cynnal ymgyrch 'dechreuwn bob sgwrs yn Gymraeg' i godi hyder siaradwyr a dysgwyr.
Cynnal ymgyrchoedd 'siaradwn Gymraeg' i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref, wrth gymdeithasu, yn y gwaith, wrth siopa
4 Y Gymraeg yn y cyngor
Mae prinder cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ym myd gwaith yn wynebu rhai sy'n gadael addysg Gymraeg. Mae rôl gan y Cyngor i wneud iawn am y gwendid yma.
4.1 Astudio enghreifftiau o Gymreigio'r gweithle, wrth roi rôl ieithyddol i bobl allweddol mewn unedau gwaith
4.2 Annog gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg: pennu adrannau /is-adrannau lle mae modd datblygu hyn
4.3 Gwneud gwybodaeth o'r Gymraeg, ar wahanol lefelau, yn fanteisiol / hanfodol ar gyfer gwahanol swyddi
4.4 Parhau â rhaglen gwersi Cymraeg
4.5 Cydweithio gyda Dysgu Cymraeg Bae Abertawe i gynnig rhaglenni dysgu / gloywi Cymraeg dwys

Barn...

YSGOLORIAETHAUCOLEG CYMRAEG
-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Yn dilyn newyddion da am ysgoloriaethau Aberystwyth a Chaerdydd y mis diwethaf dyma fwy o newyddion da! Llongyfarchiadau i'r criw yma o flwyddyn 13 ar ennill ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg! Pob dymuniad da i chi ar eich astudiaethau ym mis Medi.

TAITH I NORMANDI
-MARED JONES, BL 13 YG GŴYR

Cawsom ni fel disgyblion Ffrangeg TGAU a lefel A cyfle arbennig i fynd ar daith i Normandie er mwyn paratoi am ein harholiadau llafar. Dyma profiad penigamp! Mwynhaodd bawb aros yn y llety Chateau de la Baudonniere, ble cawsom y profiad o amryw o weithgareddau, yn cynnwys ffensio, saethyddiaeth, pobi bara a gweithgareddau fath a cwrs antur! I gyd trwy gyfrwng y ffrangeg! Trefnwyd diwrnod o daith hefyd, ble aethom ni i Mont St Michel a Le Marche de Granville. Dyma ble blasodd rhai o'r disgyblion eu crêpe cyntaf! Mwynhaodd ferched blwyddyn 11 brynu gemwaith pert yn y farchnad, trwy'r ffrangeg hefyd! Heb son am weithgareddau'r noson, o helfa drysor, cwis, a chafodd y chweched gyfle i fynd i'r sinema! Heb os, profiad bythgofiadwy oedd hi, ble taflodd pob disgybl eu hunain i mewn i'r gweithgareddau a chael hwyl, wrth hefyd ymarfer eu Ffrangeg!

GŴYL TAWE 2024

Mae Menter Iaith Abertawe wedi cyhoeddi'r manylion llawn ar gyfer Gŵyl Tawe 2024 ar ddydd Sadwrn yr 8fed o Fehefin yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.
Yn ymuno gyda'r rhaglen cerddoriaeth fyw bydd Alffa, Rogue Jones, ac yn cloi'r diwrnod, Das Koolies. Mae Alffa yn ddeuawd ffrwydrol sy'n cynnig profiad cyffrous a chynhyrfus i'r gwrandäwr gyda'u brand unigryw o roc trwm, tra bod Rogue Jones yn dychwelyd i'r ŵyl wedi ennill Gwobr Cerddoriaeth Cymraeg 2023 ar gyfer eu record "Dos Bebés" ers eu perfformiad cofiadwy yn y digwyddiad llynedd. Mae Das Koolies yn cynnig storm o techno meddwol gan bedwar o'r Super Furry Animals - Huw Bunford, Cian Ciarán, Daf Ieuan and Guto Pryce - gan berfformio traciau o'u halbwm cyntaf amrywiol, DK.01.

Mae'r artistiaid sydd eisoes wedi eu cyhoeddi i berfformio ar draws llwyfan awyr agored Cymru Greadigol a'r llwyfan Coleg Gŵyr Abertawe yng nghalon yr amgueddfa yn cynnwys Bitw, Breichiau Hir, Ci Gofod, HMS Morris, Kim Hon, Mellt, N'Famady Kouyaté, Parisa Fouladi, a Worldcub.
Bydd yr ŵyl hefyd yn ehangu i ail ddiwrnod am y tro cyntaf eleni, gyda pharti cloi yn digwydd yn y Bunkhouse ar nos Sul y 9fed o Fehefin gyda Melin Melyn a'u cyfuniad unigryw o surf-rock, gwerin a phop seicedelig. Yn ymuno gyda Melin Melyn ar y bil yma bydd y seren pop Celtaidd Mali Hâf, a Y Dail gyda'u geiriau ffraeth a chyfansoddi heintus. Mae dros hanner y tocynnau yn barod wedi eu gwerthu ar gyfer y digwyddiad yma, ac maent ar gael i brynu fan hyn.

Mae rhestr chwarae yn cynnwys yr holl artistiaid sy'n chwarae dros gyfnod y penwythnos ar gael fan hyn.
I gychwyn y digwyddiad ar fore dydd Sadwrn bydd sioe theatr ryngweithiol i deuluoedd gan Familia de la Noche - oes gen ti dy gyhyrau'n barod a dy naid seren orau wedi'i berffeithio? Os felly, mae'n amser ymuno gyda'r Trychfilod a'r Campau Campus! Gyda cherddoriaeth newydd gan HMS Morris a digonedd o dafod yn y boch, ymunwch â ni am hanner awr o ddwli swreal. Ar Lwyfan y Warws bydd hefyd amrywiaeth o berfformiadau gan ysgolion lleol gan gynnwys corau, grwpiau dawns, ac offerynwyr.
Bydd cyntedd yr amgueddfa yn cynnwys stondinau a gweithgareddau gan bartneriaid megis Coleg Gŵyr Abertawe, Siop Tŷ Tawe, Oriel y Mission, Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, Addysg Oedolion Cymru, a Cymdeithas Yr Iaith. Bydd yr artist Rhys Padarn eto yn cynnig gweithdai yn galluogi plant i greu gwaith celf arbennig ar gyfer yr ŵyl yn ei arddull unigryw Orielodl, a bydd sesiynau blasu ar gyfer grŵp Ti a Fi newydd yr amgueddfa, Twts Tawe.

Mae'r ŵyl yn rhad ac am ddim a bydd yn rhedeg rhwng 10:00 a 21:00. Mae'r digwyddiad wedi ei drefnu gan Menter Iaith Abertawe gyda chefnogaeth gan ei brif bartneriaid, Amgueddfa Cymru, Cyngor Abertawe, Coleg Gŵyr Abertawe, Llywodraeth Cymru a Chymru Greadigol, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a'r Bunkhouse.

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Mai/Mehefin.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Mehefin/Gorffennaf erbyn Mehefin 17eg trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

LINE-UP AC AMSERLEN LAWN GŴYL TAWE AR Y Y TUDALENNAU NESAF

GŴYL TAWE

AMSERLEN SCHEDULE

	LLWYFAN CYMRU GREADIGOL	LLWYFAN COLEG GŴYR	LLWYFAN Y WARWS
21:00	**DAS KOOLIES** 20:00 - 21:00		
20:00		**KIM HON** 19:15 - 20:00	
19:00	**HMS MORRIS** 18:30 - 19:15		
18:00		**BREICHIAU HIR** 17:45 - 18:30	
17:00	**ROGUE JONES** 17:00 - 17:45		
16:00		**ALFFA** 16:15 - 17:00	
15:00	**N'FAMADY KOUYATÉ** 15:30 - 16:15		**YSGOL GYNRADD GYMRAEG LON LAS** 15:30 - 16:00
14:00	**MELLT** 14:00 - 14:45	**WORLDCUB** 14:45 - 15:30	**YSGOL GYNRADD GYMRAEG Y LOGIN FACH** 14:45 - 15:15 **YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLWYNDERW** 14:00 - 14:30
13:00	**PARISA FOULADI** 12:30 - 13:15	**BITW** 13:15 - 14:00	**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE** 13:15 - 13:45 **YSGOL GYFUN GŴYR** 12:30 - 13:00
12:00		**CI GOFOD** 11:45 - 12:30	
11:00	**FAMILIA DE LA NOCHE:** **TRYCHFILOD A'R CAMPAU CAMPUS** 11:00 - 11:45		

08.06.24

ABERTAWE



GŴYL TAWE

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU
NATIONAL WATERFRONT MUSEUM
10:00-21:00

ALFFA ✸ **BITW** ✸ **BREICHIAU HIR**

CI GOFOD ✸ **DAS KOOLIES**

HMS MORRIS ✸ **KIM HON**

MELLT ✸ **N'FAMADY KOUYATÉ**

PARISA FOULADI

ROGUE JONES ✸ **WORLDCUB**

PARTI CLOI:

MELIN MELYN
MALI HÂF + Y DAIL

THE BUNKHOUSE NOS SUL 09.6.24 / £10

YSGOLION ABERTAWE

FAMILIA DE LA NOCHE
(SIOE THEATR I BLANT A THEULUOEDD)

GWEITHDAI CELF ORIELODL

Prifysgol Cymru
THE BUNKHOUSE
AMGUEDDFA CYMRU
Cymru Abertawe Swansea Council
Cymru Greadigol Creative Wales
DYDD MIWSIG CYMRU

GŴYL TAWE

PARTI CLOI GŴYL TAWE

gyda

MELIN MELYN

MALI HÂF

Y DAIL

09.06.24
THE BUNKHOUSE
ABERTAWE
18:00 · £10

menter iaith abertawe

THE BUNKHOUSE
BAR & MUSIC VENUE